



# CWTSH MYRDDIN

*Rhifyn – 10.03.2016*

## Anturiaethau Disgyblion y Chweched, Astudiaeth Crefyddol

Dim bob dydd rydych yn cael y cyfle i fwydo ac anwytho eliffant! Ond dydd Mercher y 24ain o Chwefror aeth disgyblion blwyddyn 12 Astudiaethau Crefyddol Bro Myrddin gyda'u hathrawes Mrs Gwenan Morgans i ymweld â chanolfan grefyddol Skanda Vale yn Llanpumsaint.



Cafodd y disgyblion sgwrs ddiddorol gydag un o'r mynachod sy'n byw ar y safle yn gwranddo ar ei resymau dros ei benderfyniadau i ddod yn fynach ac ymgartrefu yn Skanda Vale. Wedyn cafodd y disgyblion daith o amgylch y safle gan gerdded i fyny'r llwybr serth at y sied ble maent yn cadw'r eliffant. Vally yw enw'r eliffant sy'n cael ei ystyried yn anifail arbennig iawn i'r mynachod a lleianod sy'n byw yno. Cawsant gyfle i fwydo amrywiaeth o ffrwythau i Vally a chyffwrdd ei chroen talpiog. Yn y prynhawn bu'r disgyblion yn cymryd rhan yng ngwasanaeth addoli Puja gyda'r mynachod ble maent yn tynnu ei esgidiau cyn mynd mewn i'r deml ac yn eistedd ar glustog gan lafarganu, gweddïo a myfyrio. Roedd y diwrnod yn brofiad unigryw a diddorol dros ben .

## Diwrnod Adolygu Astudiaethau Crefyddol yn y Drindod

Eto eleni cafodd disgyblion blwyddyn 12 Astudiaethau Crefyddol gyfle i fynychu diwrnod adolygu yng Ngholeg Y Drindod Dewi Sant. Cawsant eu croesawu yn gynnes gan Dr Catrin Williams cyn dechrau ar eu sesiynau adolygu. Cafwyd sesiwn gyntaf fywiog a diddorol iawn gan y mynach Mr David Morgans am Fywyd a Dysgeidiaeth y Bwdha wedyn cafwyd darlith adolygu gan Dr Tristan Nash am Grefydd yn y Gymdeithas gyfoes gan ganolbwyntio ar ewthanasia a dadleuon o blaid ac yn erbyn ewthanasia. I gloi'r sesiynau adolygu cawsant ddarlith gan Dr Catrin Williams ar y pwnc Bwdhaeth a chymuned Fwdhaidd sef y Sangha. Ar ddiwedd y dydd roedd yr holl fyfyrwyr o wahanol ysgolion yn cael cwis cyffredinol crefyddol. Yn anffodus ni wnaeth myfyrwyr Bro Myrddin ennill ond cawsant sgôr haeddiannol.

## Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi



Dechreuwyd dathliadau dydd Gŵyl Dewi'r ysgol yn y gwasanaeth boreol dan arweiniad Dr Llinos Jones. Cafwyd hanes yr ŵyl a neges bwysig y gwasanaeth sef 'gwnewch y pethau bychain'. Roedd y disgyblion a'r staff wedi gwisgo mewn lliw coch ac ambell i wisg Gymreig yn eu mysg. I gloi'r gwasanaeth cafwyd cân gan y côr hŷn 'Rhythm y Ddawns' gan Cy Coleman dan arweiniad Mrs Meinir Richards a Nia Evans yn cyfeilio gyda chymorth Elin Jones. I ginio roedd y ffreutur wedi darparu cawl a phice ar y maen. Yn ystod yr awr ginio roedd cyfle i aelodau'r chweched dosbarth, athrawon a gweddill yr ysgol i gymryd rhan mewn twmpath dawns gyda Mrs Ffion Page yn arwain. Erbyn diwedd yr awr ginio roedd tipyn o raen ar ambell un,cafwyd llawer o hwyl ac edrychwn ymlaen at gael cyfle rhywbryd eto i flasu dawnsio traddodiadol Cymreig.



## Canlyniadau chwaraeon

23ain o Chwefror

Tîm o dan 16 - Ann Smart (paratoi ar gyfer rownd Cymru)



Ennill - BM 17 v Olchfa (tîm o dan 18) 7

Colli - BM 11 v Dyffryn Aman (tîm o dan 18) 19

2il o Fawrth yn erbyn QEHS a Coedcae

Bl.7 ennill BM 4 v Coedcae (A) 2

Bl.7 ennill BM 22 v Coedcae (B) 0

Bl.8 cyfartal BM 3 v Coedcae 3

Bl.9 ennill BM 7 v QEHS 6

Bl.9 ennill BM 7 v Coedcae 5

Bl.10 ennill BM 29 v QEHS 9

Bl.10 ennill BM 17 v Coedcae 5

Canlyniadau pêl rwyd Nos Lun 7fed o Fawrth Bro Myrddin yn erbyn Coedcae

Bl.7a ennill 7-2

Bl.7b ennill 5-2

Bl.9. Colli 16-10

Canlyniadau gemau pêl rwyd Ann Smart

(Trefn y Gemau)

1) Ysgol Newbridge : ennill 14-9

2) Ysgol Gwyr : colli 14-4

3)Ysgol Llanfair Caereinion : ennill 13-4

4)Ysgol Bryn Eilian : ennill 13-10

5)Ysgol Uwchradd St. Joseph's : colli 10-4

6)Ysgol Bryntirion : colli 13-5

7) Ysgol Glantaf : heb orffen y gêm cwrt beryglus